# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 20 Hydref 2011** |
| Amser: | **10:10 - 11:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_20_10_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Nick Ramsay (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Julie James**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Ken Skates**<br>**Joyce Watson**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Jeff Collins, Cyfarwyddwr, Director, Infrastructure Group**<br>**Tim James, Deputy Director,, Networks & Planning** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 2. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13: Sesiwn i graffu ar waith Gweinidog

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod. Bu'r Aelodau yn holi'r Gweinidog.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- Y dulliau monitro a ddefnyddir gan ei adran i ddangos llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid posibl ar gyfer trydaneiddio prif reilffordd y Great Western i Abertawe.
- Eglurhad ynghylch sut y caiff y symiau yn y gyllideb nad ydynt yn ariannol eu gosod.
- Adroddiad cynnydd am y fenter ‘smartcard’.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

- Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd am y gyllideb ddrafft.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2011

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cynigiodd y Cadeirydd gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig, a symudodd i sesiwn breifat.

## 5. Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 : Trafod yr Adroddiad Drafft

5.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod y llythyrau drafft at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a’r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.